

Ysgol y Faenol

Polisi Y CWRICWLWM

Amcanion Cyffredinol

1. Cynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd yn unol â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.
2. Meithrin cymdeithas wâr sy'n rhoi pwyslais ar les a gwerthoedd moesol a dyngarol, gan ddatblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill.
3. Yn unol â Pholisi laith yr Awdurdod, datblygu gallu'r disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
4. Gosod seiliau ar gyfer sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn yr ysgol.
5. Sicrhau cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol, cyfoethog a gwahaniaethol sydd hefyd yn hyblyg.
6. Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau, cysyniadau a medrau sy'n berthnasol i fywyd cyfoes, i ddysgu am oes ac i ddefnyddio amser hamdden yn greadigol.
7. Sicrhau cyfleoedd cyfartal a mynediad i'r cwricwlwm cyflawn.

Amcanion Penodol

1. Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.
2. Meithrin parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant a sicrhau cyfleoedd cyfartal beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd.
3. Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau dysgu yn unol â Pholisi laith y Gwasanaeth Addysg.
4. Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a'r gweithgareddau a ddarperir a bod cyfran helaeth o'r profiadau hynny yn adlewyrchu natur bywyd a diddordebau'r disgyblion.
5. Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig.
6. Galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a meddwl mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.
7. Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar a bywiog, y gallu i feddwl drostynt eu hunain, meddwl yn greadigol, i gwestiynu a thrafod yn rhesymegol, gwneud penderfyniadau, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol.

8. Darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a fydd o gymorth i ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn unol â 'Fframwaith AbaCh ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru, 2008'.
9. Darparu cwricwlwm eang a pherthnasol, cydlynus, ysgogol, a phleserus sy'n datblygu potensial llawn pob disgybl.
10. Hyrwyddo cyswllt rhwng ysgolion:
 - ◇ â'r cartref
 - ◇ â'r gymuned
 - ◇ ag ysgolion eraill [meithrin, cynradd ac uwchradd]
 - ◇ â diwydiant a masnach
 - ◇ â'r Gwasanaeth Addysg
 - ◇ ag asiantaethau perthnasol eraill.

Mynediad a Chyfleoedd cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r raglen astudio.

Lle bo'n briodol, ceir darpariaeth wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial.

Mabwysiadwyd:

Cadeirydd y Llywodraethwyr: